<sup>27</sup> See for example Article 28 UN Convention on the Rights of Persons with Disabilities and Article 23 Convention on the Rights of the Child.

<sup>28</sup> A rational ‘capabilities’ approach would presumably exempt people on means tested social security benefits before imposing a fixed upper limit – see for example Amartya Sen ‘Human rights and capabilities’ in *Journal of Human Development* (2005) 6 (2): 151–166.

<sup>29</sup> Welsh Government *National framework for Continuing NHS Healthcare* Version 2 published February 2022.

'fit-for-purpose'.<sup>30</sup> In our view the Government has, for many years, allowed the NHS in Wales to divest itself of major CHC responsibilities (in relation to adult and children's services) and that the most recent Framework Guidance constitutes a dramatic evidence of this approach. The effect of this policy has been that local authorities are now funding significant numbers of individuals with very high care needs, who in earlier times would have been funded by the NHS. This cost shunting has a number of adverse consequences for the health and social care systems, including:

- local authority funding is being diverted to a people with very high needs away from those with lower levels of need – and for whom support services could have prevented or delayed serious deterioration in their ability to live independently;
- local authority funding (already seriously constrained) is not available to facilitate the discharge of patients from hospital – as Senedd Research<sup>31</sup> and the Senedd's Health and Social Care Committee<sup>32</sup> have recently highlighted - the lack of social care capacity is the biggest contributor to delayed hospital discharges and restricted patient flow through hospital. A finding accepted by the Welsh Government.<sup>33</sup> Putting to one side the trauma that delayed discharges are causing to patients and families, the additional costs borne by the NHS resulting from these delayed discharges must outweigh the cost savings they NHS makes due to CHC cost shunting.<sup>34</sup>
- Local authorities appear to be responding to the pressures caused by CHC cost shunting by specifying that domiciliary care support packages cannot include an element that could be described as healthcare related – for example PAs assisting disabled and elderly people to take their essential medication. This action effectively places individuals' in need in the middle of an inter-authority squabble – the net result of which is that they cease to have this essential support. It is a squabble that should not be happening, as legally both public bodies are obliged to work together<sup>35</sup> to avoid situations of this kind. We have seen no evidence that the Welsh Government has taken any practical action to address this particular problem.

The cost impacts of the dramatic change to the CHC Guidance also fall on individuals with capital assets above the maximum charging levels – ie self-funders. If the policy intention behind the CHC eligibility changes is that the NHS should cease to be a universal service (ie for rich and poor alike) then the Welsh

---

<sup>30</sup> Rhydian Social Welfare Law in Wales [The end game: Continuing NHS Healthcare \(CHC\) in Wales](#) 9 March 2022 and see also A Greenow [The Problem with Fast Track in Wales](#) Rhydian Social Welfare Law in Wales, 6 May 2023.

<sup>31</sup> Senedd Research [Who cares? Why lack of social care is the biggest contributor to delays in hospital discharge](#) 6 October 2022.

<sup>32</sup> [Hospital discharge and its impact on patient flow through hospitals](#) (June 2022) para 91

<sup>33</sup> Welsh Government's [Written response to the Committee's findings](#) 2 July 2022.

<sup>34</sup> Cite data on social services being more cost effective: ie being able to fund care needs at a rate significantly below what the NHS would pay for the same person.

<sup>35</sup> NHS Act 2006, s82 and Welsh Government Part 9 Statutory Guidance (Partnership Arrangements) (2020).

Government should be open and honest about this rather than seeking to effect such a change through the use of (arguably unlawful) guidance.

### **NHS CHC and independent living**

The Welsh Government has been aware for many years of the adverse impact on many disabled people of its prohibition of Direct Payments for CHC.<sup>36</sup> Seven years ago it acknowledged that this was an issue to be addressed and noted that one option would be the wider use of the mechanism of Independent User Trusts (IUTs). A commitment to addressing this problem was contained in the 2021 Welsh Labour Party manifesto (p.18). In 2021 we expressed the view<sup>37</sup> that the Welsh Government should (pending any legislative change) take practical action by producing a simple template example of an IUT that could (and should) be used by Health Boards in appropriate cases. As we have noted [cite posting] this has not happened. Instead of providing such a template, the Welsh Government has resorted to its comfort zone of rhetoric - of individuals not losing 'their voice, choice and control over their daily lives' in such cases.

### **Concluding comments**

We express our thanks to the Health and Social Care Committee for Professor Clements' invitation to participate in its investigations concerning the state of social care in Wales. We reiterate the enormous value of a Government committed to delivering better social care for those in need in Wales, and one that has been prepared to commission and publish independent reviews as to the workings of the 2014 Act.

Our concern is, as this submission makes plain, that there is an urgent need for Welsh policy to move from rhetoric to reality. In UK terms, Wales is a relatively poor Country that is, in many respects, at the behest of funding from a regressive Government in London. In relation to the delivery of decent social care for the people of Wales there are however many things that the Government can do to give effect to its strong commitment to social justice, inclusion and to ensure that cost does not act as an obstacle to accessing care.

---

<sup>36</sup> See for example letter from the [Welsh Government Director of Social Services and Integration dated 10 February 2016](#).

<sup>37</sup> See for example [NHS Continuing Health Care and Direct Payments in Wales 15 May 2021](#).

## Eitem 5

Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services



Ein cyf: MA/EM/1270/23

Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Russell George AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

[Seneddlechyd@senedd.cymru](mailto:Seneddlechyd@senedd.cymru)

Mark Isherwood AS  
Cadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus

[SeneddCCGG@Senedd.cymru](mailto:SeneddCCGG@Senedd.cymru)

10 Mai 2023

Annwyl Russell a Mark

Diolch yn fawr am eich llythyr dyddiedig 19 Ebrill yn dilyn cyfarfodydd y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus ar 30 Mawrth 2023. Mae'n bwysig ein bod yn gweithio gyda'n gilydd i gefnogi'r Bwrdd a sicrhau ein bod yn osgoi dyblygu gwaith.

Gofynnnoch am wybodaeth am dri maes, ac rwyf wedi mynd i'r afael â nhw isod:

1. **Gwybodaeth ychwanegol am y Tîm Ymyrraeth a Chymorth gan gynnwys ei benodiad, ei gylch gorchwyl, ei ddulliau o weithio, ei ymrwymiad o ran amser, ac ei berthynas â Llywodraeth Cymru a Gweithrediaeth newydd y GIG.**

Pan roddwyd bwrdd iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr dan Fesurau Arbennig ym mis Chwefror 2023, gweithredais ar unwaith i benodi nifer o Gynghorwyr Annibynnol i gefnogi'r Bwrdd fel a ganlyn:

- Mae **Alan Brace OBE** wedi bod yn Gyfarwyddwr Cyllid a Phrif Swyddog Gweithredol mewn nifer o fyrrdau iechyd yng Nghymru. Yn 2016, cafodd ei benodi'n Gyfarwyddwr Cyllid ar gyfer y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru, a hon oedd ei swydd nes iddo ymddeol yn 2021. Ym mis Medi 2018, gwnaed ef yn Athro Anrhydeddus yn Ysgol Reolaeth Prifysgol Abertawe a chafodd OBE yn rhestr Anrhydeddau Blwyddyn Newydd y Frenhines 2022 am ei wasanaeth i'r GIG a'i gyfraniad at Adferiad Covid yng Nghymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay  
Caerdydd • Cardiff  
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:  
0300 0604400

[Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru](mailto:Gohebiaeth.Eluned.Morgan@llyw.cymru)  
[Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales](mailto:Correspondence.Eluned.Morgan@gov.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 38

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and responding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Mae gan **Susan Aitkenhead** brofiad helaeth o waith clinigol, gweithredol, llywodraethu, a strategol wrth gyflawni gofal iechyd ar draws amrywiaeth o leoliadau a sectorau. Mae wedi cyflawni rolau darparu a chomisiynu gweithredol ac anweithredol ar Fyrrdau yn y DU a dramor. Mae Susan hefyd wedi gweithio mewn amrywiaeth o rolau polisiau cenedlaethol megis yn yr Adran Iechyd yn Lloegr gan roi cyngor a chymorth i weinidogion a swyddogion ar draws adrannau'r Llywodraeth ganolog, yn GIG Lloegr ac NHS Improvement, ble roedd yn Ddirprwy Prif Swyddog Nysio, ac ym maes rheoleiddio proffesiynol yng Nghyngor Nysio a Bydwreigiaeth y DU. Yn fwy diweddar, bu Susan yn gadeirydd annibynnol y Panel Adolygu Ansawdd Gwasanaethau Fasgwlaidd amlbroffesiynol a sefydlwyd mewn ymateb i ganfyddiadau o Adolygiad Gwasanaeth Gwahoddedig gan Goleg y Llawfeddygon ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.
- **Dr Graham Shortland OBE, BM, DCH, FRCPCH** oedd Cyfarwyddwr Meddygol Gweithredol ac Aelod o'r Bwrdd ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro rhwng mis Mehefin 2010 ac Ebrill 2019, ac roedd yn gyfrifol am ddatblygiadau strategol sylweddol a gwelliannau i wasanaethau yn ystod yr amser hwnnw. Roedd hyn yn cynnwys cadeirio grwpiau Cymru gyfan ar ran Llywodraeth Cymru, gan gynnwys gwaith ar wasanaethau offthalmig, rhagnodi gwrthfotigau, gwasanaethau newyddenedigol, grŵp y Cyfarwyddwyr Meddygol, a gwasanaethau ar gyfer cleifion gyda chlefydau prin. Ar ôl ymddeol o'i swydd fel Cyfarwyddwr Meddygol, mae Graham wedi cynghori Cyflogwyr GIG fel rhan o'r Uwch-dîm Negodi ar gyfer Cymru, Lloegr a Gogledd Iwerddon, a lwyddodd i negodi'r contract Meddygon SAS newydd gyda Chymdeithas Feddygol Prydain. Mae wedi cynnal adolygiad fel arbenigwr allanol, gydag Uwch-gydweithiwr Pediatrig ar gyfer Hosbisau Plant i gynghori ar strategaeth yn y dyfodol, a chynhaliodd a chadeiriodd adolygiad ar gyfer Bwrdd Iechyd Prifysgol mawr yn GIG Cymru o ran ei broses o gynnal adolygiadau o farwolaethau yn ystod COVID. Yn fwy diweddar, mae wedi sicrhau cyllid sylweddol gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynllun treialu dwy flynedd o hyd ar gyfer gwasanaethau i gleifion â chlefydau prin, clinig SWAN (Syndrom Heb Enw).
- Penodwyd **David Jenkins** yn Ysgrifennydd Cyffredinol TUC Cymru yn 1983, a chyflawnodd y swydd hon am ddua ddeg un o flynyddoedd. Yn ystod y cyfnod hwn, gwasanaethodd hefyd ar nifer o gyrrf cyhoeddus, gan gynnwys Cyngor Celfyddydau Cymru, y Comisiwn Monopoliau a Chydsoddiadau, y Tribiwnlys Apelau Cyflogaeth, Bwrdd Cyngorol Cymru ar Ddatblygu Diwydiannol, a'r Cyngor Anabledd Cenedlaethol. Ymddeolodd David o'i swydd fel Ysgrifennydd Cyffredinol yn 2004 a chafodd ei benodi gan Lywodraeth Cymru yn Gadeirydd Proffesiynau Iechyd Cymru rhwng 2004 a 2006 ac fel Cadeirydd Asiantaeth Genedlaethol Arwain ac Arloesi mewn Gofal Iechyd yng Nghymru rhwng 2006 a 2009. Yn 2009, cafodd ei benodi'n Gadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Daeth ei wyth mlynedd yn y swydd i ben yn 2017 ac wedi hynny mae wedi darparu cyngor a chymorth annibynnol i fyrrdau iechyd eraill fel rhan o Drefniadau Uwchgyfeirio ac Ymyrraeth Llywodraeth Cymru.
- Mae **Geraint Evans** yn gyn-gyfarwyddwr Gweithredol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan. Mae gan Geraint brofiad helaeth o arwain newidiadau strategol a thrawsnewid gweithleoedd ar lefel Bwrdd y GIG, Llywodraeth Leol a'r sector preifat.
- Bydd Geraint Evans a Tracy Myhill yn ffurfio **Tîm Cefnogi'r Gweithlu Annibynnol a'r rhaglen o gamau gweithredu**. Geraint Evans fydd yn arwain y tîm Adnoddau Dynol annibynnol hwn, a fydd yn cynnwys nifer o bobl gyda sgiliau gwahanol ar sail gorchwyl a gorffen mewn cam cychwynnol o waith i ymdrin ag unrhyw faterion uniongyrchol gan asesu tîm presennol y Gweithlu a Datblygu Sefydliadol. Yna, bydd Tudalen y pecyn 39

hwn yn llywio cynllun tymor hwy a fydd yn barod i'w roi ar waith o ganol mis Mai ymlaen. Bydd Tracy Myhill yn cefnogi'r Cadeirydd yn y broses o ganfod a phenodi Prif Weithredwr newydd ar gyfer y sefydliad.

Mae'r cylch gorchwyl ar gyfer y Cyngorwyr Annibynnol wedi'i atodi yn **Atodiad A**. Rydym yn y broses o benodi dau Gynghorydd Annibynnol arall, a bydd un ohonynt yn canolbwyntio ar gymorth iechyd meddwl. Rydym hefyd wedi penodi dwy swydd cymorth gweithredol i weithio'n uniongyrchol gyda'r bwrdd iechyd. Bydd un ohonynt yn arwain tîm bach i ganolbwyntio ar orthopaedeg a bydd y llall yn cefnogi'r bwrdd iechyd gyda rheolaethau gweithredol gan ddechrau drwy sicrhau nad yw pobl yn aros dros 4 awr i gael eu trosglwyddo o gerbydau ambiwlans.

Mae pob penodiad wedi bod yn benodiadau uniongyrchol naill ai drwy Weithrediaeth y GIG neu drwy sefydliadau'r GIG lle'r oedd gan yr unigolyn gontact cyflogaeth eisoes. I ddechrau, bydd y contractau ar gyfer 6 mis ac yn amrywio rhwng 4 ac 8 diwrnod gweithio y mis.

Mae'r Cyngorwyr Annibynnol yn cyfarfod gyda Llywodraeth Cymru o leiaf ddwywaith y mis, ac yn amlach gyda swyddogion polisi a swyddogion Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae pob un yn darparu adroddiad misol i Lywodraeth Cymru.

## **2. Y wybodaeth ddiweddaraf am y gwaith a'r cynnydd a wnaed o ran cyflawni'r amcanion a benwyd o dan y drefn mesurau arbennig newydd a gyflwynwyd ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.**

Mae **Atodiad B** yn rhoi trosolwg o'r fframwaith mesurau arbennig ar gyfer y cyfnod hyd at fis Rhagfyr 2023, sef y cyfnod sefydlogi.

Mae cynnydd yn cael ei wneud yn erbyn nifer o'r amcanion a chânt eu crynhoi isod:

### **Llywodraethu, effeithiolrwydd y bwrdd ac archwilio**

Mae Cadeirydd wedi cael ei benodi i'r bwrdd iechyd ac mae 6 Aelod Annibynnol mewn swydd. Mae cyfweliadau wedi'u cynnal ar gyfer Aelod Annibynnol awdurdod lleol a chaiff y canlyniadau eu cyhoeddi'n fuan. Disgwylir enwebiadau ar gyfer Aelod Annibynnol yr undeb llafur yn fuan. Mae gwaith yn mynd rhagddo i gytuno ar Is-gadeirydd. Mae gan un o'r Aelodau Annibynnol gefndir ym maes iechyd meddwl. Mae'r prif fwrdd wedi cwrdd unwaith ac mae nifer o weithdai wedi'u cynnal ynghylch cynllunio a mesurau arbennig. Mae pwylgorau wedi'u trefnu drwy gydol mis Mai 2023.

Fel y nodir uchod, mae nifer o Gynghorwyr Annibynnol wedi'u penodi i weithio ar draws meysydd mesurau arbennig, gan gynnwys effeithiolrwydd y bwrdd, a datblygu'r ymateb sefydliadol i adolygiad Archwilio Cymru. I gefnogi hyn, mae newidiadau wedi'u gwneud yn Swyddfa Ysgrifennydd y Bwrdd ac mae adolygiad o'r strwythur a'r swyddogaeth hon bellach ar waith.

Cyhoeddwyd Prif Weithredwr dros dro ar 2 Mai a bydd Carol Shillabeer yn arwain y sefydliad, ar secondiad o Fwrdd Iechyd Addysgu Powys. Dechreuodd y broses ar gyfer reciwtio Prif Weithredwr parhaol ym mis Mawrth 2023 ac mae'r gwaith yn parhau.

## Llywodraethu clinigol

Mae adolygiad o lywodraethu clinigol yn cael ei gwmpasu ac mae asesiad dros dro o faterion sy'n ymwneud â diogelwch cleifion wedi dechrau. Mae adolygiadau cyflym yn cael eu cynnal mewn ymateb i faterion a godwyd gan Grwner EF a'r Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus. Cytunwyd ar brosesau adrodd a dysgu newydd ac maent yn cael eu hymgorffori ar draws y sefydliad.

## Gweithlu a datblygiad sefydliadol

Mae cylch gorchwyl ar gyfer adolygiad cyflym o bortffolios Tîm Gweithredol hefyd wedi cael ei ddatblygu a bydd hyn yn dechrau yn ystod mis Mai 2023. Mae adolygiad sefydliad ar waith, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Cyllid dros dro. Mae rhaglen gwmpasu i asesu effeithiolrwydd y model gweithredu newydd a sut caiff ei roi ar waith bellach wedi dechrau. Mae Gweithdai gydag Pwyllgor Meddygol Lleol a phartneriaethau â staff lleol yn cael eu trefnu. Mae adolygiad o bolisiau llesiant, ymgysylltu a gweithlu ar waith a disgwyli iddo ddod i ben ym mis Mehefin.

## Iechyd meddwl

Dechreuodd asesiad diogelwch iechyd meddwl cleifion mewnol ar 24 Ebrill i roi sicrwydd a chymryd camau gweithredu ynghyllch yr ystad iechyd meddwl a chynlluniau gweithredu. Mae Coleg Brenhinol y Seiciatryddion wedi dechrau adolygiad o adolygiadau iechyd meddwl blaenorol i bennu i ba raddau y mae'r argymhellion blaenorol wedi'u hymgorffori a'u cwblhau.

## Arweinyddiaeth a diwylliant

Mae adolygiad rhagarweiniol o arweinyddiaeth ddiwylliannol yn cael ei arwain gan AaGIC ochr yn ochr â gweithlu Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a'r tîm datblygu sefydliadol i asesu'r sefyllfa bresennol a chytuno ar y camau nesaf.

### 3. Amserlen ar gyfer y gwaith o geisio gwella atebolrwydd, yn ogystal â'r gwaith o ddiwygio a diweddar u'r fframwaith ymyrryd ac Uwchgyfeirio

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru yn y broses o ddatblygu Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio GIG Cymru. Bydd hyn yn nodi'r mecanwaith a'r dull o gael sicrwydd gan sefydliadau GIG Cymru, yn ogystal â nodi'r ffiniau o ran sut bydd y Grŵp Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda GIG Cymru.

Bydd yr egwyddorion canlynol yn sail i'r Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylio:

- Creu diwylliant gwella:** bwriad y trefniadau yw cefnogi datblygiad parhaus diwylliant o sicrhau ansawdd, a gyflwynir er budd cleifion. Caiff hyn ei gefnogi gan amcanion clir a fydd yn annog diwylliant o berfformiad uchel ac atebolrwydd.
- Tryloywder:** Mae'r mesurau a'r amcanion a nodir yn fframweithiau GIG Cymru yn cael eu mynegi'n glir i sefydliadau GIG Cymru fel eu bod yn gwybod beth sy'n ofynnol; yn deall sut cānt eu hasesu a beth yw'r broses a fydd yn digwydd pe bai'r amcanion yn disgyn o dan y lefelau disgwyliedig.
- Canolbwytio ar gyflawni:** Bydd y dull rheoli ansawdd yn integredig, yn canolbwytio ar gamau gweithredu ac yn gwneud gwelliannau y cytunwyd arnynt ar y ddwy ochr (gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau'r GIG).

- **Cymesuredd a chydbwysedd:** Bydd y trefniadau Sicrwydd a Goruchwylia yn ceisio sicrhau bod ymyriadau a gweithredoedd yn cyd-fynd â maint y risg, ac y cynhelir cydbwysedd rhwng herio a chefnogi.
- **Llinellau clir o atebolrwydd:** Bydd trefniadau sicrhau ansawdd yn sicrhau bod Cadeiryddion a Swyddogion Atebol yn enwebu swyddogion arweiniol sy'n atebol am gyflawni'r dull goruchwylia a'i brif ryngwyneb.
- **Ymreolaeth a enillwyd:** bydd cyflawni yn erbyn cynlluniau a thrywyddion y cytunwyd arnynt yn arwain at lefelau uwch o ymreolaeth. Wrth i sefydliadau gyflawni yn erbyn disgwyliadau targed bydd amlder a dwyster y trefniadau goruchwylia yn cael eu hadolygu. I'r gwrthwyneb, bydd lefelau uwch o gefnogaeth ac ymyriadau sicrhau ansawdd ar waith pan fo angen, a gellid eu hasesu fel rhan o'r gwaith o uwchgyfeirio sefydliadau.

Mae'r Fframwaith Sicrwydd a Goruchwylia yn cael ei gynllunio i hyrwyddo diwylliant o 'ddim byd annisgwyl', gan sicrhau ein bod yn nodi materion a phryderon sy'n dod i'r amlwg yn gynnar, fel y gellir mynd i'r afael â nhw cyn iddynt gael effaith faterol a chyn i berfformiad ddirywio ymhellach.

Bydd disgwyl i sefydliadau gynnal y berthynas gyda Gweithrediaeth y GIG a Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru fel bod newidiadau go iawn neu ddarpar newidiadau mewn perfformiad yn cael eu rhannu yn amserol. Lle mae risgau ansawdd yn berthnasol i ddarparu gwasanaethau diogel a chynaliadwy, dylid rheoli'r rhain a'u huwchgyfeirio at y Grŵp lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Ein bwriad yw cyflwyno'r trefniadau atebolrwydd newydd, a gefnogir gan fframwaith uwchgyfeirio diwygiedig, yn ddiweddarach y flwyddyn hon.

Nodaf eich bod am gael y wybodaeth ddiweddaraf am y meysydd hyn yn rheolaidd ac, yn unol â'ch cais, byddaf yn ysgrifennu atoch eto ym mis Tachwedd.

Yn gywir

**Eluned Morgan AS/MS**

Y Gweinidog lechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol  
Minister for Health and Social Services

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR  
CYMORTH YMYRRYD - CYNGHORWYR ANNIBYNOL  
CYLCH GORCHWYL**

## CEFNDIR

1. Ar 27 Chwefror 2023, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ei bod yn uwchgyfeirio statws ymyrraeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i fesurau arbennig a hynny ar unwaith. Roedd y penderfyniad hwn yn adlewyrchu pryderon difrifol sydd wedi bodoli ers tro ynghylch effeithiolrwydd y bwrdd, diwylliant sefydliadol, ansawdd gwasanaethau ac addrefnu, llywodraethiant, diogelwch cleifion, darparu gweithredol, arweinyddiaeth a rheoli ariannol.

## CYLCH GWAITH Y GRŴP

2. Mae nifer o Gynghorwyr Annibynnol wedi'u penodi i ffurfio tîm gwella a chefnogi'r Bwrdd Iechyd i ddarparu'r cymorth a'r cyngor y mae eu hangen i alluogi Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i roi ar waith y newidiadau y mae eu hangen i gyflawni gwelliannau. Mae'r cymorth a'r cyngor yn yr achos hwn yn cyfeirio at gymysgedd o fesurau sydd wedi'u llunio'n wrthrychol (monitro, sicrwydd, gwerthuso, canllawiau, anogaeth a chymorth) a fydd ar y cyd yn rhoi sicrwydd i randdeiliaid (gan gynnwys cleifion, staff a'r cyhoedd yn ehangach).
3. Bydd y Cyngor yn canolbwytio'n benodol ar y canlynol:
  - Llywodraethiant ac effeithiolrwydd y bwrdd.
  - Y gweithlu a datblygu sefydliadol.
  - Cyllid ac archwilio
  - Arweinyddiaeth a diwylliant
  - Llywodraethu Clinigol a diogelwch cleifion.
  - Cyflawni gweithredol a thrawsnewid gwasanaethau

## YR YMAGWEDD

4. Bydd y Cadeirydd, yr Aelodau Annibynnol a'r Tîm Gweithredol yn parhau i arwain y bwrdd wrth gyflawni eu swyddogaethau. I gynorthwyo'r bwrdd i ddatblygu sylfeini cadarn, rôl y Cyngorwyr fydd:

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR  
CYMORTH YMYRRYD - CYNGHORWYR ANNIBYNNOL  
CYLCH GORCHWYL**

- Cefnogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau ar sail asesiad o ansawdd a chefnogi grymuso'r bwrdd.
- Darparu her briodol wrth archwilio systemau iechyd presennol y bwrdd.
- Rhoi cyngor, yn amodol ar eu sgiliau, eu cefndiroedd a'u profiad unigol eu hunain.
- Cefnogi aelodau'r bwrdd wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.
- Mentora aelodau'r bwrdd drwy wrando, rhoi anogaeth a chynnig adborth.
- Cynghori ar fecanweithiau amgen y gellid eu defnyddio ar sail strategol neu weithredol.

Mae'r canlynol yn nodi rhai o'r gweithgareddau craidd:

- **Goruchwyliau cynlluniau gwella** – Cefnogi a chyngori ar y trefniadau i geisio sicrwydd gweithredol a chadarn bod argymhellion adolygiadau blaenorol (clinigol, llywodraethiant, ariannol ac Adnoddau Dynol) yn cael eu rhoi ar waith.
- **Adolygiadau clinigol** – Cefnogi a chyngori ar broses i sefydlu proses annibynnol i gynnal adolygiadau priodol (diogelwch cleifion er enghraifft); bydd y broses y cytunir arni yn sicrhau bod unrhyw gamau gweithredu a/neu ddysgu sy'n dod i'r amlwg yn cael eu rhoi ar waith;
- Uwchgyfeirio pryderon ehangach - Uwchgyfeirio unrhyw faterion neu bryderon llywodraethiant ehangach a ddaw i'r amlwg, i Fwrdd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Llywodraeth Cymru. Ni fydd y Cynghorwyr Annibynnol yn gyfrifol am unrhyw swyddogaethau gweithredol neu reoli o ddydd i ddydd. Nid oes gan y Cynghorwyr gyfrifoldeb dros benderfynu ar achosion posibl o dorri safonau rheoleiddio proffesiynol neu faterion perfformiad. Os bydd unrhyw wybodaeth yn codi a allai arwain at bryder o'r fath, caiff hyn ei uwchgyfeirio trwy Dîm Uwchgyfeirio Llywodraeth Cymru drwy lwybrau y cytunir arnynt ac fe gaiff proses adborth ei datblygu i sicrhau bod y pryder wedi'i asesu yn briodol a bod penderfyniad ar y camau gofynnol wedi'i wneud. Dylid rhoi ystyriaeth yn y llwybrau i hysbysiad allanol lle y gallai fod angen gofyniad statudol, mewn amgylchiadau eithriadol.

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR  
CYMORTH YMYRRYD - CYNGHORWYR ANNIBYNNOL  
CYLCH GORCHWYL**

## RHANDDEILIAID

5. Prif swyddogaeth y Cynghorydd Annibynnol fydd cefnogi Aelodau'r Bwrdd ac uwch staff o fewn y bwrdd iechyd. Byddant yn gweithio'n effeithiol gyda rhanddeiliaid allweddol fel y bo'n briodol.

## ADRODD

6. Bydd Cyngorwyr Annibynnol yn rhoi diweddariad i Lywodraeth Cymru yn fisol, ar ffurf e-bost, a fydd wedyn yn cael ei goladu a'i gynhyrchu mewn adroddiad i'r Gweinidog.
7. Lle bo'n briodol gallai fod gofyniad i roi cyngor uniongyrchol i'r Gweinidog.

## AELODAETH

8. Bydd yr aelodaeth yn cynnwys y Cyngorwyr canlynol, ond dylid nodi y gallai'r rhestr hon gynyddu neu newid wrth i'r Cyngorwyr ddod i ddeall yn well yr heriau a'r cyfleoedd wrth i'r gwaith hwn fynd rhagddo.
  - Susan Aitkenhead
  - David Jenkins
  - Alan Brace
  - Graham Shortland
  - Geraint Evans

## MODUS OPERANDI

- **Canolbwytio ar y claf** – caiff penderfyniadau, argymhellion a chamau gweithredu eu gyrru'n bennaf gan ystyriaethau diogelwch, ansawdd a phrofiad cleifion;
- **Gwerthfawrogi pobl** – mae gweithlu brwd frydig, llawn cymhelliant, sy'n cael ei arwain yn dda, yn ofyniad sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel, sy'n canolbwytio ar y claf;
- **Agored a thryloyw** - yn ddarostyngedig i gyfyngiadau cyfrinachedd cleifion a diogelu data, bydd y gwaith yn cael ei wneud mewn modd agored a thryloyw
- **Cynhwysol** - ymgysylltu â staff, cleifion a rhanddeiliaid gan eu cynnwys yn y broses oruchwyliau a gwella

**BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR  
CYMORTH YMYRRYD - CYNGHORWYR ANNIBYNNOL  
CYLCH GORCHWYL**

- **Cydweithredol** - o fewn amgylchedd o graffu a herio cadarn, cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wneud y gorau o'r broses wella ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen, dyblygu ymdrech ac adnoddau

**GWEINYDDU**

Caiff y Cynghorwyr Annibynnol eu cefnogi gan unigolyn sydd â sgiliau da ym maes rheoli prosiectau a dadansoddi perfformiad, sy'n gallu cydweithio ar lefel uwch reolwr ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac a all gynhyrchu adroddiadau drafft nad oes angen fawr o waith diwygio arnynt cyn cael eu cyflwyno i'r Gweinidogion.

## BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR: MESURAU ARBENNIG 2023

Darparu trosolwg, cymorth a chyngor i alluogi i BIPBC ymateb i ofynion y mesurau arbennig mewn modd amserol, agored a thryloyw.

### Meysydd pryder

- Llywodraethu, effeithiolwydd y bwrdd ac archwilio
- Datblygu'r gweithlu a'r sefydliad
- Rheoli a llywodraethu ariannol
- Diwylliant ac arweinyddiaeth dosturiol
- Llywodraethu clinigol, profiad y claf a diogelwch
- Cyflawni gweithredol
- Cynllunio a thrawsnewid y gwasanaeth
- Iechyd meddwl

### Deilliannau

- Cylch gorchwyl
- Adroddiadau misol
- Adlewyrchu ar y 6 mis cyntaf a llwyddiannau
- Adolygiadau unigol (i'w pennu)
- Adrodd yn rheolaidd i'r Bwrdd

### Egwyddorion Arweiniol

- Cleifion yn gyntaf – dylai pawb sy'n defnyddio'r gwasanaethau ddisgwyl cael gofal a thriniaeth o safon cyson uchel
- Grymuso staff – sicrhau bod ganddynt yr amodau gwaith cywir a'r adnoddau cywir i gefnogi eu llesiant, darparu'r gwasanaethau a gofal gorau posibl a rhannu arferion gorau
- Ethos o ansawdd a diogelwch sy'n cymhell popeth
- Cyflawni gwasanaethau sy'n gwella iechyd y boblogaeth ac yn gweithio i leihau anghydraddoldebau iechyd ar y cyd â phartneriaid yn seiliedig ar ymddiriedaeth a pharch a dysg
- Arweinyddiaeth gryf a thosturiol sydd wedi'i chefnogi gan systemau llywodraethu cadarn ac effeithiol
- Gwasanaethau gofal a gynlluniwyd, gofal brys a gofal mewn argyfwng, sy'n ddiogel ac o ansawdd uchel

### Gwerthoedd ac ymddygiadau

- Canolbwytio ar y claf** – caiff penderfyniadau, argymhellion a chamau gweithredu eu cymell yn bennaf gan ystyriaethau diogelwch, ansawdd a phrofiad y claf;
- Gwerthfawrogi pobl** – mae gweithlu brwd frydig, llawn cymhelliant, sy'n cael ei arwain yn dda, yn ofyniad sylfaenol ar gyfer darparu gwasanaethau diogel, o ansawdd uchel, sy'n canolbwytio ar y claf;
- Agored a thryloyw** – yn amodol ar gyfngiadau cyfrinachedd cleifion a diogelu data, bydd gwaith yn cael ei gynnal a phenderfyniadau yn cael eu gwneud mewn modd agored a thryloyw
- Cynhwysol** – meithrin cysylltiadau â staff, cleifion a rhanddeiliaid a'u cynnwys yn rhagweithiol yn y broses trosolwg a gwella
- Cydweithio** – o fewn amgylchedd o graffu a herio cadarn, cydweithio â Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr i wneud y gorau o'r broses wella ac osgoi biwrocratiaeth ddiangen, dyblygu ymdrechion ac adnoddau

### Dysgu o ymyriadau eraill

Mae dysgu o ymyriadau blaenorol yn tynnu sylw at fanteision buddsoddi amser ar ddechrau unrhyw broses ymyrraeth i sefydlu a chytuno ar sylfeini cadarn. Mae hyn yn cynnwys:

- Mabwysiadu dull 'system gyfan' (h.y. un sy'n ystyried methiannau'r gwasanaeth yng nghyd-destun arweinyddiaeth sefydliadol, llywodraethu, diwylliant, capasiti ac adnoddau)
- Nodi'n glir beth yw achosion sylfaenol y broblem a mynd i'r afael â'r rheini yn hytrach na'r symptomau a arweiniodd at yr ymyrraeth
- Diffinio'r safonau i'w cyflawni yn glir a'r mechanweithiau sy'n ofynnol i wneud y newidiadau i fodloni'r safonau
- Darparu'r rhinweddau, galluoedd a chapasiti i gyflawni'r newid
- Sefydlu amserlenni clir, mesurau cynnydd a cherrig milltir
- Datblygu strategaeth glir ar gyfer uwch-gyfeirio ac is-gyfeirio
- Sefydlu llinellau llywodraethu ac atebolwydd clir

## BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR: MESURAU ARBENNIG 2023

Darparu trosolwg, cymorth a chyngor i alluogi i BIPBC ymateb i ofynion y mesurau arbennig mewn modd amserol, agored a thryloyw.

### Cyngorwyr Annibynnol

- Cefnogi'r bwrdd i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar egwyddorion llywodraethu cadarn, asesiadau clinigol a grymuso'r bwrdd.
- Darparu her briodol wrth archwilio systemau presennol y bwrdd iechyd.
- Rhoi cyngor, yn seiliedig ar eu sgiliau, eu cefndiroedd a'u profiadau unigol eu hunain.
- Cefnogi aelodau'r bwrdd wrth iddynt ymgymryd â'u dyletswyddau.
- Cefnogi a mentora aelodau'r bwrdd drwy wrando, rhoi anogaeth a chynnig adborth.
- Cyngori ar fecanweithiau amgen y gellid eu defnyddio ar sail strategol neu weithredol.
- Rhoi cymorth i helpu i wella perfformiad gweithredol a chyflawni'r trawsnewidiad angenheidiol y cytunwyd arno
- Darparu cefnogaeth adnoddau dynol arbenigol

### Cydweithio

- Cyfle i gymryd rhan yn y broses o gynllunio Mesurau Arbennig;
- Cyngorwyr Annibynnol i gefnogi a chyngori
- Cyfarfodydd trosolwg misol
- Cyfarfod adolygu Mesurau Arbennig chwarterol
- Gwiriadau wythnosol
- Cyfarfodydd misol wedi'u trefnu gyda'r Cadeirydd a'r Prif Weithredwr
- Diweddarriadau cynnydd misol
- Rhannu materion sy'n dod i'r amlwg
- Briffiadau bwrdd yn ôl yr angen
- Enwebu unigolion/arbenigwyr i gefnogi/cyfrannu at ddatblygu strategaethau allweddol
- Dull ar y cyd o ymgysylltu â rhanddeiliaid
- Cyfleoedd i wirio cynnydd
- Dim byd annisgwyl

### Strategaeth Asesu a Monitro Perfformiad

- Cynnwys ansawdd, diogelwch, llywodraethu a chynnaladwyedd
- Cytuno ar gerrig milltir, targedau a mesurau
- Optimeiddio prosesau adrodd
- Proses fonitro a gwerthuso
- Meini prawf asesu
- Proses uwch-gyfeirio ac is-gyfeirio
- Methodoleg adrodd.

### Strategaeth Ymgysylltu a Chyfathrebu

- Datganiad o egwyddorion
- Eglurder cyfrifoldebau
- Dulliau ac offer ymgysylltu (wedi'u targedu ar gyfer y gynulleidfa)
- Briffio rhanddeiliaid yn rheolaidd: ymgysylltu â staff a chyfathrebu mewnol
- Cyfathrebu â'r cyhoedd – meithrin ymddiriedaeth a hyder
- Briffio gwleidyddol (pwy sy'n gwneud beth a phryd);
- Trin y cyfryngau (pwy sy'n gwneud beth a phryd)
- Cyfryngau cymdeithasol a/neu presenoldeb ar y we

### Polisi Diogelu Data a Rhannu Gwybodaeth

- Cytundeb rhannu gwybodaeth
- Perchnogaeth data
- Cyfrinachedd cleifion a chydsyniad ar sail gwybodaeth
- Trin data a diogelwch
- Sicrhau cysondeb gwybodaeth
- Llif gwybodaeth

### Strategaeth Adolygu Clinigol

- Cwmpas a chylch gorchwyl
- Trin data a rhannu gwybodaeth;
- Ymgysylltu a chyfathrebu â chleifion a theuluoedd
- Ymgysylltu â staff ac adborth
- Dysgu o dystiolaeth ac arferion gorau
- Adnoddau
- Methodoleg yr adolygiad
- Fformat a phroses adrodd (materion sy'n dod i'r amlwg)
- Gweithio i wella, iawndal ac ymgyfreitha sifil
- Polisi atgyfeirio (cyrff proffesiynol, crwneriaid, etc.).

## BWRDD IECHYD PRIFYSGOL BETSI CADWALADR: MESURAU ARBENNIG 2023

Darparu trosolwg, cymorth a chyngor i alluogi i BIPBC ymateb i ofynion y mesurau arbennig mewn modd amserol, agored a thryloyw.

### Tri cham

Sefydlogi Safoni Cynaladwyedd

### Sefydlogi

- Sefydlogi'r Bwrdd
- Adolygu a chryfhau arweinyddiaeth gweithredol
- Adolygu llywodraethu ac atebolrwydd
- Adolygu diogelwch a gofal cleifion
- Ymateb i Archwilio Cymru
- Diagnosteg diwylliant ac arweinyddiaeth
- Cyllid a chynllunio
- Rheolaeth weithredol

Bydd y model cyflawni ar gyfer y cam hwn yn cael ei arwain gan dîm bychan, sy'n cynnwys

- Aelodau Annibynnol / Cyfarwyddwyr Gweithredol
- Ymgynghorydd Annibynnol
- Llywodraeth Cymru / Gweithrediaeth y GIG

Darperir y rhaglen a'r prosiect gan y bwrdd iechyd gyda chymorth y tîm trawsnewid

### Cynllunio a thrawsnewid y gwasanaeth

- Adolygiad cyflym gan gymheiriaid o'r capaciti a gallu cynllunio integredig o fewn BIPBC, o ran cynllunio Cynlluniau Integredig Tymor Canolig gweithredol a strategol
- Adolygiad cyflym gan gymheiriaid o ddull y sefydliad o ran datblygu eu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig a'r mecanweithiau penderfynu cysylltiedig
- Asesu a oes gan y bwrdd iechyd fynediad at gapasiti a galluedd digonol ar gyfer cynllunio strategol
- Proses ddatblygu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig gan gynnwys triongli cynlluniau mewnbwn gweithredol, gweithlu ac ariannol
- Datblygu ymgysylltiad a mewnbwn rhanddeiliaid wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig
- Datblygu proses benderfynu a llywodraethu wrth ddatblygu Cynlluniau Integredig Tymor Canolig

### Llywodraethu, effeithiolrwydd y bwrdd ac archwilio

- Adolygiad llywodraethu ac atebolrwydd
- Camau gweithredu Archwilio Cymru a Chronfa'r Brenin
- Swyddfa'r Ysgrifennydd Bwrdd, Pwyllgorau'r Bwrdd a'r broses Lywodraethu
- Sicrhau bod llywodraethu priodol ar waith, yn enwedig mewn perthynas â chraffu risgiau, perfformiad, dull arwain ac ymarfer yn briodol

### Llywodraethu clinigol, profiad y claf a diogelwch

- Arweinyddiaeth glinigol
- Gwasanaethau clinigol – fasgwlar, wroleg, iechyd meddwl a dermatoleg
- Ymddygiad ac ymarfer clinigol
- Modelau cyflawni rhanbarthol
- Trefniadau rhwydwaith clinigol
- Cynllunio swyddi clinigol
- Systemau rheoli ansawdd ac asesiad dyletswydd gonestrwydd
- Adolygu pryderon am ddiogelwch cleifion
- Trosolwg o'r broses Gweithio i Wella
- Adolygu profiad y claf
- Ysbyty Glan Clwyd

### Datblygu'r Gweithlu a'r Sefydliad

- Diwylliant, gwerthoedd ac ymddygiad
- Adolygu a diweddu Cryfach Gyda'n Gilydd
- Adolygu'r strwythur gweithredol a phortfolios
- Cefnogi a sefydlogi'r Tîm Adnoddau Dynol
- Trefniadau ar gyfer ymdrin â'r adolygiad Ernst and Young
- Ymateb i gwynion a materion cysylltiedig
- Cymorth a llesiant staff
- Recriwtio Prif Weithredwr
- Ymgysylltu a chyfathrebu â staff
- Perthynas â staff
- Cynllunio'r gweithlu ac integreiddio

### Cyflawni Gweithredol

- Gwell perfformiad gofal a gynlluniwyd
- Gwell darpariaeth iechyd meddwl i oedolion, CAMHS a gwasanaethau niwroddatblygiadol
- Cysondeb gofal brys a gofal mewn argywng dros y chwe mis nesaf
- Tystiolaeth o roi'r camau gweithredu a nodwyd yn yr adolygiadau arbenigol ar waith
- Cynlluniau clir i leihau'r ôl-groniad a gwella effeithlonrwydd
- Strategaethau ar gyfer orthopaedeg, llawdriniaeth gyffredinol ac offthalmoleg

### Iechyd Meddwl

- Datblygu gweledigaeth strategol, cynllun gweithredu a strategaeth gryf a chredadwy.
- Integreiddio gyda swyddogaethau corfforaethol
- Cwblhau'r materion ac argymhellion sy'n weddill a'u cynnwys fel busnes fel arfer
- Llywodraethu corfforaethol a throsolwg a chraffu effeithiol
- Nodi a rhannu'r hyn na ddysgywd, a chymell gwelliannau mewn gofal
- Arweinyddiaeth weledol gan y weithrediaeth, y bwrdd a staff meddygol
- Tystiolaeth o newid diwylliant positif
- Gwella perfformiad yn unol â gofynion a safonau disgwyliedig

### Diwylliant ac Arweinyddiaeth Dosturiol

- Diagnosteg Ddiwylliannol
- Datblygu Arweinyddiaeth
- Gallu a chapasiti i arwain

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfngiadau ar y ddogfen hon